## W22/08HE – Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cawsom 11 o ymatebion i Gylchlythyr ymgynghori W22/08HE, wyth o Sefydliadau Addysg Uwch a thri o Sefydliadau Addysg Bellach a gyllidir yn uniongyrchol. Mae'r rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld ym mharagraff 10.

I drafod egwyddorion y cymorth cyflogadwyedd mewn mwy o fanylder, cynhaliodd CCAUC ddigwyddiad ymgynghori ar 6 Mai 2022, yr oedd cynrychiolwyr o'r saith Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru, y Brifysgol Agored yng Nghymru a dau goleg addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru'n bresennol ynddo.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn croesawu'r cyllid y cynigir trefnu iddo fod ar gael ar gyfer diwedd y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'r gweithgarwch newydd. Roeddent i gyd yn gefnogol at ei gilydd i'r dull cyflawni a gynigir.

Caiff yr ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori ar gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr eu crynhoi isod. Ceir manylion canlyniadau cwestiynau penodol a'r ymatebion iddynt yng nghylchlythyr W22/21HE.

### 1. Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir?

1.1. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno at ei gilydd â'r dull a gynigir ar gyfer cefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch neu o gefndiroedd dan anfantais gymdeithasol sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gyflawni deilliannau cadarnhaol ar ôl graddio. Nodwyd y byddai'r dull a gynigir yn hwyluso proses bontio esmwyth o'r rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i mewn i'r cyfnod newydd a'i fod yn galluogi ymgysylltu di-dor â myfyrwyr a rhanddeiliaid. Roedd ymatebwyr hefyd yn croesawu'r ffaith y byddai Cynlluniau Cyflawni strwythuredig yn ei gwneud yn bosibl rhoi anogaeth i gysoni gweithgarwch a deilliannau prosiectau â blaenoriaethau strategol sefydliad.

1.2. Roedd tri ymatebydd yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd cynyddol o ran y grwpiau o fyfyrwyr a fyddai'n gymwys i gael cymorth, e.e. dim cyfyngiad oedran, annibyniaeth i osod targedau a grwpiau â blaenoriaeth. Ar ben hynny, roedd y broses adrodd wedi'i symleiddio'n cael ei chroesawu gan ddau ymatebydd hefyd gan y bydd yn ei gwneud yn bosibl dyrannu mwy o adnoddau i gyflawni yn hytrach na gweinyddu.

1.3. Roedd cydweithio parhaus rhwng partneriaid cyflawni'n cael ei ystyried yn briodoledd cadarnhaol hefyd gan ddau ymatebydd. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod effaith colli darpariaeth a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop mor fach â phosibl i fyfyrwyr, atgyfeirwyr a chyflogwyr. Gyda chronfa ddata ganolog GO Wales (a oedd yn cael ei dal gan CCAUC ar y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop) yn cael ei cholli, nodwyd y bydd cydweithio parhaus yn hwyluso dull mwy cydgysylltiedig ar draws y darparwr o ran rhannu gwybodaeth a manylion cyswllt cyflogwyr.

1.4. Codwyd ychydig o bwyntiau penodol, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â'r dull a nodwyd yn y cylchlythyr ar gyfer darparu cyllid i SAB a gyllidir yn

uniongyrchol, er bod un ymatebydd wedi nodi ei fod yn falch o weld bod colegau ac AU mewn AB wedi cael eu cydnabod yn y cynigion. Mae canlyniadau'r pwyntiau penodol a restrir isod yng nghylchlythyr W22/21HE.

- Nododd un ymatebydd yr hoffai gael cadarnhad gan CCAUC y caniateir hyblygrwydd i sefydliadau ddiffinio 'profiad gwaith', ac iddynt benderfynu pa gyfranogwyr fyddai'n cael y budd gorau ohono.
- Gofynnodd un ymatebydd i ni egluro i ba raddau y gallai myfyrwyr rhyngwladol gael cymorth, gan bod y ffocws domestig ar y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi profi'n gryn her.
- O ystyried yr heriau ychwanegol a wynebir gan fyfyrwyr niwroamrywiol, argymhellodd un ymatebydd y dylid cyfeirio'n benodol at niwroamrywiaeth (e.e. Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, Dyslecsia, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio) o fewn y meini prawf cymhwystra. Roedd hyn yn cydnabod bod ar y myfyrwyr hyn angen cymorth cyflogadwyedd yn arbennig, ond nad yw'r cyflyrau wastad yn cael eu hystyried yn anabledd.
- Gofynnodd un ymatebydd am ystyried cyfeiriad penodol at gymorth ar gyfer prentisiaid a gweithgarwch prentisiaeth yn y dull hwn neu mewn dulliau yn y dyfodol.
- Ar nodyn llai cadarnhaol, byddai'n well gan un ymatebydd fod wedi gweld ffrâm amser hwy'n cael ei chadarnhau ar gyfer y dyraniad cyllid hwn. Byddai eglurhad cryfach o natur barhaus y cymorth hwn yn sicrhau cynaliadwyedd o ran dylunio'r broses gyflawni, yn enwedig o ran yr elfennau staffio.
- Roedd un ymateb yn nodi y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r methodolegau cyllido a chydweithredol mewn perthynas â myfyrwyr AU mewn AB, a allai o bosibl arwain at effaith anffafriol a chyllid annheg ar gyfer SAB a gyllidir yn uniongyrchol. Hefyd, dylai disgwyliadau CCAUC fod yn fwy tryloyw.

## 2. A yw'n briodol defnyddio nifer y myfyrwyr sy'n ystyried bod eu cyflogadwyedd wedi gwella o ganlyniad i'r cymorth fel dull o fesur llwyddiant?

2.1. Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn cytuno ei bod hi'n briodol defnyddio'r dull hwn. Roedd un ymatebydd yn ystyried mai defnyddio Offer Asesu Cyflogadwyedd oedd un o'r ffyrdd gorau o fesur sgiliau cyflogadwyedd, yn debyg i'r dull a ddefnyddir yn y rhaglen gyfredol a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan y bydd myfyrwyr yn cael profiadau gwahanol gyda'r ddarpariaeth sydd ar gael. Nodwyd fod dull o'r fath nid yn unig yn bwysig i ddangos deilliannau cadarnhaol ar gyfer gweithgarwch a gyflawnwyd, ond ei fod hefyd yn ffordd ddefnyddiol i fyfyriwr weld y pellter y mae wedi'i deithio.

2.2. Nododd un ymatebydd fod y dull hwn yn cael ei ystyried yn briodol, ar yr amod bod myfyrwyr yn deall cysyniadau cyflogadwyedd yn glir wrth ymuno â'r rhaglen, gan y dylent wedyn allu hunanasesu'n gywir a yw eu cyflogadwyedd wedi gwella erbyn iddynt adael.

2.3. Nododd un ymatebydd mai mesur meintiol yw hwn ac er mwyn darparu mesur mwy holistaidd a chywir o effaith, ei bod yn well i fesurau ansoddol gael eu

hategu gan fesurau meintiol gan y gallai ffactorau eraill, yn rhai cadarnhaol a negyddol, effeithio ar farn person ynglŷn â gwelliant.

**Pa fesurau perfformiad eraill y gellid eu defnyddio i fesur effaith y cyllid?**

2.4. Roedd mesurau perfformiad allweddol eraill a gynigiwyd yn cynnwys:

- Lefelau hyder cyn/ar ôl yr ymyriad, a fesurwyd trwy gwblhau Offeryn Asesu Cyflogadwyedd;
- Ymgysylltu â chyflogwyr trwy ystod o weithgareddau: sesiynau blas ar waith, cysgodi yn y gwaith, a / neu gyfleoedd Cwrdd â'r Gweithiwr Proffesiynol (cyfleoedd profiad gwaith rhithwir byr, lle mae myfyrwyr yn cwrdd â gweithiwr proffesiynol ac yn ei holi i gael gwybod mwy am lwybr gyrfa, rôl neu sector penodol heb yr angen i fynd i safle cyflogwr);
- Nifer y digwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd a gyflawnwyd. Gallai'r mesur hwn ddangos effaith annog myfyrwyr, a allai ei chael yn anodd mynychu digwyddiadau o'r fath a gynigir trwy ddarpariaeth brif ffrwd, o ymgysylltu â digwyddiadau sy'n helpu i feithrin dyheadau a hyder i gynnig cyfleoedd i gwrdd â darpar gyflogwyr hefyd;
- Cwblhau ymarferion myfyrio lle mae myfyrwyr yn ystyried eu datblygiad ac yn dangos tystiolaeth ohono;
- Camu ymlaen i leoliad / cyfle sy'n gysylltiedig â gwaith;
- Nifer y sesiynau mentora/arweiniad a fynychwyd gan fyfyrwyr, gan bod arweiniad a mentora'n gallu arfogi'r myfyrwyr hynny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur â sgiliau penderfynu a'u grymuso i gymryd y camau nesaf yn annibynnol;
- Nifer yr apwyntiadau un-i-un a ddarparwyd ar gyfer myfyrwyr unigryw;
- Nifer y cyfleoedd profiad gwaith a gyflawnwyd;
- Nifer y myfyrwyr a gafodd gynnig a/neu a sicrhaodd gyflogaeth bellach yn dilyn y cymorth y maent wedi'i gael;
- Nifer y bwrsariaethau a roddwyd; gallai'r mesur hwn ddangos yr effaith y mae'r cyllid hwn yn ei chael ar y myfyrwyr hynny sydd fwyaf mewn angen, a gallai ddangos yr angen am bot wedi'i glustnodi ar gyfer y myfyrwyr hynny o gefndiroedd Ehangu Mynediad a grwpiau â blaenoriaeth a.y.b.;
- Niferoedd sydd wedi cofrestru ar gyfer gyrfaoedd;
- Yr Arolwg Deilliannau Graddedigion (a chwestiynau perthnasol mewn arolygon eraill o fyfyrwyr) o ran y darlun cyffredinol;
- Gwybodaeth Dadansoddeg Dysgwyr;
- Nifer yr atgyfeiriadau i mewn i wasanaethau a gweithgareddau eraill;
- Nifer y graddedigion sy'n sicrhau swydd ar lefel raddedig;
- Amser rhwng ennill y cymhwyster ar lefel gradd a chael swydd ar lefel raddedig;
- Nifer y graddedigion sy'n cael cyflogaeth yn y sector sy'n gysylltiedig â'u cymhwyster (a'u sgiliau);
- Nifer y graddedigion sy'n astudio ymhellach i gael sgiliau ychwanegol o fewn blwyddyn i raddio;
- Nifer y graddedigion sy'n sicrhau cyflogaeth a oedd wedi cael profiad gwaith a oedd yn gysylltiedig â'u cymhwyster;

- Nifer y graddedigion ac am faint o amser yr arhoson nhw'n gyflogedig yn eu swydd raddedig gyntaf.

**3. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi cymorth i nifer neilltuedig o unigolion am gyfnod cyfyngedig ar ôl graddio?**

**a) Os ydych chi, a yw 10% o gyfanswm yr unigolion a gefnogir yn briodol? Esboniwch eich ymateb, gan awgrymu opsiwn arall os ddim.**

**b) A yw 15 mis ar ôl graddio yn derfyn amser addas i raddedigion allu derbyn y cymorth hwn? Esboniwch eich ymateb, gan awgrymu opsiwn arall os ddim.**

3.1. Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyfyngu ar nifer yr unigolion a gefnogir am gyfnod cyfyngedig ar ôl graddio. Fodd bynnag, dywedodd tri ymatebydd, gan y byddai'r Gronfa Cymorth i Raddedigion yn rhoi cymorth tan ddiwedd mis Gorffennaf 2023 yn eu darparwr hwy, y byddai'n ddoeth canolbwyntio'r cymorth hwn yn gyfan gwbl ar fyfyrwyr gyda golwg ar adolygu'r ddarpariaeth hon ar gyfer unrhyw gyllid a gynigir o 1 Awst 2023 ymlaen, pe bai'r cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth i Raddedigion yn dod i ben.

3.2. Nododd un ymatebydd eu bod yn cytuno â hyn mewn egwyddor, ond na ddylid ei orchymyn ar gyfer colegau AB, gan bod y mwyafrif o'u darpariaeth hwy ar lefelau 4 a 5 ac y bydd cyfran fawr o'u myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio ar lefel 6 mewn sefydliadau partner.

3.3. Ar yr amod bod y Gronfa Cymorth i Raddedigion yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2023 (lle caiff ei rhedeg ar gyfer graddedigion mewn prifysgolion), roedd ymatebwyr yn cytuno at ei gilydd y byddai terfyn o 10% yn rhesymol. Nododd un ymatebydd fod y cynnig o 10% yn deg, gan y bydd y ffocws ar gymorth rhagweithiol i fyfyrwyr, felly dim ond ar nifer fach o unigolion y dylai fod angen cymorth ar ôl graddio.

3.4. Dywedodd un ymatebydd y byddai'n well ganddynt fod yn rhydd i wneud y penderfyniadau hyn yn ôl y gofyn, yn hytrach na gweithio i darged a ragnodwyd. Dywedodd un arall y byddent yn croesawu'r cyfle i fyfyrio ynghylch hyn tra bo'r rhaglen yn cael ei chyflwyno, ac i barhau â'r drafodaeth ynglŷn â hyn wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, ac awgrymodd un arall fod y lefel o 10% yn cael ei gwerthuso ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o gyflawni, gyda golwg ar ei diwygio er mwyn darparu hyblygrwydd gwell. Dylai'r gwerthusiad ystyried diwedd y Gronfa Cymorth i Raddedigion hefyd, lle'i darperir, a sut y mae hyn yn effeithio ar raddedigion ledled Cymru. Gofynnodd un darparwr am eglurhad pa un a fyddai disgwyl i gyfranogwyr fod wedi'u cofrestru ar y rhaglen tra'r oeddent yn dal i fod yn fyfyrwyr. Awgrymodd ymatebydd arall fod y lefel o 10% yn cael ei gwerthuso ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o gyflawni, gyda golwg ar gynyddu'r ganran os oes angen er mwyn darparu hyblygrwydd gwell.

3.5. Mewn perthynas â'r ffrâm amser ar gyfer cefnogi unigolion ar ôl iddynt raddio, eglurodd un ymatebydd, o'u profiad hwy o gefnogi myfyrwyr ar raglen gyfredol GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ei bod hi'n amlwg bod

cefnogi myfyrwyr wrth iddynt bontio o’r brifysgol i waith yn eithriadol o werthfawr. Mae llawer o’r myfyrwyr sy’n ymgysylltu â’r rhaglen gyfredol yn cael peth wmbredd o gymorth tra’u bod yn y brifysgol gan dimau ar draws y sefydliad. Gan bod y cymorth hwn yn cael ei golli unwaith y maent yn graddio, gall fod yn sioc enfawr i lawer o fyfyrwyr a’r rhai sydd wedi cael cymorth ac ymyriadau sylweddol trwy gydol eu bywyd a’u profiadau addysgol blaenorol. Wrth i fyfyrwyr ar eu blwyddyn olaf nesáu at raddio, gallent gael budd o beth cymorth trosiannol i sicrhau eu bod yn gallu cael gwaith. Hefyd, efallai y byddai rhai’n dal i gael budd o fentora, cyngor ac arweiniad i ymgodymu â’r broses ymgeisio a chyfweliadau, tra gallai eraill gael budd o gymorth sy’n gysylltiedig â hygyrchedd a sut i reoli hyn gyda chyflogwr posibl. Gallai’r elfen hon o’r cymorth wedi’i dargedu wella deilliannau graddedigion ar gyfer grwpiau â blaenoriaeth darparwyr a sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd ar ôl y brifysgol.

3.6. Roedd chwe ymatebydd yn cytuno bod 15 mis i’w gweld yn ffrâm amser resymol, gan bod hynny’n gyson â graddfeydd amser yr Arolwg Deilliannau Graddedigion. Awgrymodd dau ymatebydd y byddai’n fwy addas defnyddio ffrâm amser o dair blynedd, gan bod y rhan fwyaf o brifysgolion yn caniatáu i fyfyrwyr geisio cyngor a chymorth ar ôl graddio yn unol â’r ffrâm amser hon. Awgrymodd un ymatebydd ffrâm amser o 12 mis, gan y byddai o gymorth mawr i raddedigion bod y cymorth yn dal i fod â ffocws ac wedi’i gydgrynhoi yn fuan ar ôl graddio, ond roeddent yn ystyried bod ffrâm amser o 15 mis yn ddichonadwy hefyd.

3.7. Awgrymodd un ymatebydd y byddai o fudd pe bai’r canllawiau’n darparu hyblygrwydd i gefnogi’r graddedigion hynny a fyddai wir yn ei chael yn anodd dod o hyd i gyflogaeth addas y tu hwnt i’r ffrâm amser o 15 mis os oedd y cyllid wedi’i fwriadu i wneud gwahaniaeth go iawn i allu unigolion i gael cyflogaeth. Yn hytrach na chyflwyno cyfyngiadau ar faint o amser y gallai sefydliad ei dreulio’n gweithio gyda graddedig, gallai datrysiad gwell gynnwys asesiad seiliedig-ar-waith ar gyfer graddedig nad yw eto wedi dod o hyd i waith na chyflogaeth ar lefel raddedig ar ôl graddio.

3.8. Awgrymodd un ymatebydd, yn ystod y ffrâm amser o 15 mis, y gellid cyfeirio’r graddedig at gymorth cyflogadwyedd yn ei gymuned, yn barod ar gyfer yr amser pan fyddai’r cymorth yn dod i ben. Gellid ymgorffori hyn yng nghynllun gweithredu’r unigolyn o’r dechrau, i sicrhau bod eu disgwyliadau’n cael eu rheoli’n dda.

3.9. O ystyried heriau rhedeg a recriwtio ar gyfer rhaglen fyrdymor, gofynnodd un ymatebydd am fwy o eglurder ar gyfer cynlluniau ar ôl mis Gorffennaf 2023.

## 4. Ydych chi'n cytuno â'r model cyllido a gynigir? Esboniwch eich ymateb, gan awgrymu model arall os nad ydych chi'n cytuno.

4.1. Roedd chwe ymatebydd yn cytuno â’r model cyllido a gynigir ac yn cydnabod yr anhawster o ran dosbarthu’r cyllid ar gyfer gweithgarwch o’r math yma a bod cyllid yn adlewyrchu nifer y myfyrwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogiad.

Nododd un ymatebydd fod y model cyllido’n galluogi’r broses gyflawni i symud i ffwrdd oddi wrth gyfyngiadau meini prawf y rhaglen gyfredol a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac y byddai’r model a gynigir yn eu galluogi i efelychu’r llwyddiant a welwyd ar y Rhaglen Cymorth i Raddedigion.

4.2. Er bod un ymatebydd yn cydnabod bod y model cyllido a gynigir yn cyflwyno cap ar gyllid er anfantais sefydliadau mwy, roedd yn derbyn egwyddorion y fethodoleg, a oedd yn ceisio sicrhau tegwch a gweithgarwch y gellid ei gyflawni ledled Cymru.

4.3. Dynododd dau ymatebydd nad oeddent yn cytuno â’r model cyllido a gynigir. Roedd un ymatebydd yn ystyried y dylai’r dull gydnabod cyflawniad uchel yn erbyn targedau dan raglen gyfredol GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop dros y chwe blynedd ddiwethaf. Awgrymodd yr ymatebydd fethodoleg gyllido amgen lle mae’r gyllideb, namyn £75k ar gyfer y SAB a gyllidir yn uniongyrchol, yn cael ei rhannu’n gyfartal rhwng y naw SAU sy’n cyfranogi. Dadleuwyd y byddai’r dull cyllido hwn yn cydnabod bod materion yn bodoli o ran anghenion y grwpiau cymwys o fyfyrwyr ac ardal eu man astudio nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu mewn setiau data, ac y byddai’n decach o ganlyniad. Roedd ymatebydd arall hefyd yn croesawu dull a oedd yn adlewyrchu’r modd y cyflawnwyd deilliannau ar raglen gyfredol GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Awgrymodd y dylai cyfran o’r cyllid gael ei rhannu yn ôl perfformiad yn erbyn targedau ar y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan y byddai hyn o gymorth o ran creu’r effaith fwyaf bosibl o’r cyllid yn y dyfodol.

4.4. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried ymgysylltiad a gweithgarwch prentisiaethau fel rhan o’r model cyllido, ac argymhellodd un arall fod y model cyllido’n cael ei adolygu tuag at ddiwedd y flwyddyn academaidd gyntaf.

4.5. Roedd ceisiadau i CCAUC ailystyried y cyllid a’r dull ar gyfer myfyrwyr AU mewn AB. Amlygodd un ymatebydd, er bod y cyllid yn arwain at gyllideb sy’n debyg i’w cyllid cyfredol yn y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, eu bod wedi canfod y byddai ei ddefnyddio mewn modd teg ar draws eu darpariaeth AU mewn AB freiniol yn her, yn enwedig pe bai’r ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu. Fe awgrymon nhw y byddai cwmpas a graddfa ymgysylltiad sefydliad â phartneriaid AB yn ffactor dymunol i’w gynnwys yn y model cyllido. Dynododd un ymatebydd fod eu myfyrwyr AU a gyllidir yn uniongyrchol i gyd yn yr un sector, yn astudio’n rhan-amser ac eisoes yn gyflogedig ar y cyfan. Nododd un ymatebydd y gallai’r cydbwysedd gwahanol mewn SAB rhwng myfyrwyr a gyllidir yn uniongyrchol a myfyrwyr breiniol arwain at symiau anghymesur o’r cyllid sydd ar gael.

4.6. Nododd un ymatebydd fod eu rhanbarth daearyddol yn wledig iawn, ac y gallai’r cyllid beri anfantais bellach i’r dysgwyr yn y rhanbarth gan bod costau (e.e. costau teithio) wedi codi. Fe ddwedon nhw fod ganddynt hefyd nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n cael peth darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y costau adnoddau staffio ar gyfer hyn fel arfer yn uwch.

## 5. A ddylid cadw enw brand GO Wales ar raddfa genedlaethol, i fyfyrwyr ac/neu i gyflogwyr?

5.1. Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio, ac nid oedd barn fwyafrifol. Fe wnaeth ychydig o ymatebwyr gwestiynu beth fyddai canfyddiad pobl am y brand pe bai'n cael ei gadw, o ystyried y byddai'r drefn darparu gwasanaethau'n amrywiol ar draws yr holl ddarparwyr. Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd yr enw brand yn cyfleu swyddogaeth y rhaglen, na hyd yn oed ei bod yn gysylltiedig ag addysg neu gyflogadwyedd. Roedd yr enw ei hun yn cael ei ystyried yn llai pwysig o ran ymgysylltiad myfyrwyr, ac roedd un ymatebydd yn ystyried bod y brand yn gallu bod yn rhwystr i fyfyrwyr gan y gellir ei weld fel label ac y gall ddarbwyllo myfyrwyr i beidio ag ymgysylltu.

5.2. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod y gallai enw adnabyddadwy ar lefel genedlaethol fod o gymorth, yn enwedig wrth geisio cydweithio gyda sefydliadau eraill, ac roedd dau ymatebydd yn gefnogol i gadw'r brand GO Wales ar lefel genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr yn unig.

5.3. Roedd un darparwr yn gefnogol i gadw enw brand GO Wales ar gyfer y cyllid newydd, ar yr amod y gallai sefydliadau ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, fel y bo'n briodol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai fod cyfle i ddarparwyr redeg prosiect ymbarél, a hwnnw o bosibl wedi'i frandio o fewn gwasanaethau craidd y darparwr, a fyddai wedyn yn gallu cynnwys Lleoliadau/gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr a dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith GO Wales fel elfen.

5.4. Mynegodd ychydig o ymatebwyr yr hoffent weld y gronfa hon yn cael ei hail-lansio gydag enw brand newydd, i ddynodi newid o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac awgrymodd un ymatebydd y gallai fod o gymorth ymgynghori â myfyrwyr i sicrhau eu bod yn uniaethu ag unrhyw enw newydd.

5.5. Gallai un ymatebydd weld manteision ac anfanteision gyda chadw'r brand, ac roedd yn awyddus i ddeall barn darparwyr eraill.

## 6. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau negyddol yn gysylltiedig â chynigion yr ymgynghoriad hwn?

6.1. Cafodd nifer o ganlyniadau anfwriadol a / neu effeithiau negyddol eu nodi yn yr ymatebion ymgynghori, er bod pedwar ymatebydd wedi nodi nad oeddent yn gallu rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

6.2. Y brif effaith negyddol, a amlygwyd gan bedwar ymatebydd, oedd natur fyrdymor y cyllid. Fe wnaeth yr ymatebwyr y sylw, er bod cylchlythyr W22/08HE: Ymgynghoriad ar gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr yn dynodi ei bod yn debygol y bydd cyllid y tu hwnt i fis Gorffennaf 2023, bod natur fyrdymor contractau staff yn profi'n broblem i ddarparwyr o ran denu a chadw staff. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai o gymorth cael cadarnhad y bydd y cyllid hwn yn ei le y tu hwnt i un flwyddyn, gan nad yw modelau cyllido un flwyddyn yn rhoi cymorth cynaliadwy ar gyfer gweithgarwch prosiect. Byddai hyn yn gryn her o ran y fframweithiau a'r strwythurau y mae angen eu sefydlu i gefnogi

gweithgarwch, ac mae'n ddull di-fudd mewn perthynas â gweithgarwch partneriaeth gyda chyflogwyr.

6.3. Nododd un darparwr y gallai llwyddiant y gweithgarwch hwn gynyddu'r galw am wasanaethau ar draws gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau proffesiynol eraill ehangach, ac y gallai arwain at bwysau ar y gwasanaethau hynny i ateb galw uwch.

6.4. Yn ôl un darparwr, o ganlyniad yn uniongyrchol i'r gostyngiad yn y cyllid yr oeddent yn ei wynebu dan y model cyllido a gynigir, byddai angen iddynt leihau'r cymorth sydd ar gael, a fyddai'n cael effaith negyddol ar nifer sylweddol o fyfyrwyr yn eu sefydliad. Nododd dau ymatebydd y bydd y gostyngiad mewn cyllid o'i gymharu â chyllideb y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn arwain at golli swyddi rhai aelodau o staff.

6.5. Canlyniad negyddol arall a nodwyd gan un ymatebydd oedd diffyg cronfa ddata ganolog GO Wales, a oedd wedi hwyluso cysylltiadau â chyflogwyr a chydweithio ar y rhaglen a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Roedd yn dychmygu y byddai hyn yn gwneud gweithgarwch cydweithredol yn anos ac y gallai arwain at beth cystadleuaeth rhwng darparwyr, yn enwedig yn Ne Cymru. Nododd un ymatebydd effaith negyddol pe na bai myfyrwyr rhyngwladol yn gallu cael eu cefnogi trwy'r cyllid hwn.

6.6. Ar nodyn cadarnhaol, roedd dau ymatebydd yn croesawu'r hyblygrwydd o fewn y cynnig i'w gwneud yn bosibl addasu darpariaeth a sicrhau y gwneir cynnig pwrpasol i'r myfyrwyr ac arnynt fwyaf angen y cymorth hwn.

## 7. Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol y gallai'r cynigion eu cael ar y canlynol:

**a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a**

**b) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

7.1. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu effeithiau cadarnhaol yn bennaf. Nododd un ymatebydd y byddai'n beth cadarnhaol ymgysylltu â mwy o siaradwyr Cymraeg a chynnig mwy o gyfleoedd yn Gymraeg. Dywedodd un arall y bydd y gronfa'n cael ei hyrwyddo i'w rhwydweithiau Cymraeg (yn rhai mewnol ac allanol) a chyflogwyr ac fe wnaethant nodi, gan ddibynnu ar y galw o blith cyflogwyr, y gallai darparwyr weld cynnydd mewn cyfleoedd profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nododd un ymatebydd y gallai'r ffrâm amser gyfyngedig fod yn rhwystr i staff neu fyfyrwyr ddysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg.

7.2. Disgrifiodd ymatebwyr y ffaith nad ydynt, yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fe ddwedon nhw y byddai myfyrwyr a oedd yn dymuno cael eu cefnogi trwy gyfrwng y Gymraeg neu eu cynorthwyo i gael profiad gwaith mewn amgylchedd Cymraeg yn cael y cyfle i wneud hynny. Byddai'r holl weithgarwch yn cael ei gyflawni yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**8. A ellid newid y cynigion i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu i leihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:**

**a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a**

**b) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

8.1. Roedd y mwyafrif o ymatebion a gafwyd yn awgrymu bod cyfle i fynd ati ymhellach i gynyddu effaith gadarnhaol ymgysylltu â myfyrwyr Cymraeg a darparu cyfleoedd profiad gwaith dwyieithog neu Gymraeg. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r cyllid hwn gynorthwyo i gynnal a thyfu cysylltedd â chyflogwyr yng Nghymru, ac awgrymodd y gallai defnyddio cyfran o'r cyllid i roi anogaeth i greu gweithgarwch sy'n ymwneud â lleoliadau profiad gwaith dwyieithog fod o gymorth i gynyddu cyfleoedd i bobl ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfleodd un arall y byddai cynnydd yn eu gwasanaeth a gynigir yn Gymraeg, e.e. gweithdai, apwyntiadau gydag Ymgynghorwyr Gyrfaoedd, adnoddau ar-lein a lleoliadau.

8.2. Dywedodd un ymatebydd eu bod yn ystyried bod defnyddio'r Gymraeg a gweithgareddau dwyieithog yn sgil cyflogadwyedd allweddol ac y byddent felly'n gwreiddio hyn o fewn y gweithgareddau arfaethedig, ac felly nad oeddent yn ystyried bod angen ychwanegu ymhellach at y cynnig.

8.3. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r rhestr o nodweddion myfyrwyr sydd o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth gael ei hestyn i gynnwys myfyrwyr sy'n dymuno gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymodd un arall y gallai fod o gymorth ystyried cynyddu'r dyraniad cyllid i ddarparwyr sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod y byddai hyn yn addasu'r model cyllido, yr oeddent yn hapus gydag ef yn y bôn. Awgrymodd un arall y gallai Cynlluniau Cyflawni gynnwys y cymorth a fyddai'n cael ei gynnig i uwchsgilio dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn barod ar gyfer cyflogaeth.

**9. A yw'r newidiadau a gynigir yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?**

9.1. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn amlygu'r ffaith bod y cynigion i'w gweld fel pe baent yn cynnig effeithiau cadarnhaol ar y saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r cynnig yn parhau â gwaith rhaglen GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i hybu symudedd cymdeithasol a chynyddu mynediad at swyddi 'gweddus' ar gyfer myfyrwyr Ehangu Mynediad a myfyrwyr mewn grwpiau eraill â blaenoriaeth.

9.2. Soniodd un darparwr am gysoni â'r uchelgais a chefnogi'r uchelgais ar gyfer Cymru, a nodir yng nghynllun Llywodraeth Cymru Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach – Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau, i sicrhau bod 'neb yn

cael ei adael ar ôl, neb yn cael ei ddal yn ôl, drwy ymrwymiad a rennir i sicrhau bod pawb yn gwireddu ei botensial'.

9.3. Un effaith negyddol a nodwyd gan ddau ymatebydd yw hyd cychwynnol y cyllid, gan nad yw hyn yn gyson â'r egwyddor 'hirdymor'. Mae cyllid am un flwyddyn academaidd yn codi pryderon ynghylch diwallu anghenion hirdymor myfyrwyr. Byddai angen i'r broses o bontio i gylch newydd o gyllid fod yn ddi-dor er mwyn i ddarpariaeth barhau ar gyfer y myfyrwyr ac i gefnogi graddedigion.

9.4. Roedd ymatebion yn cynnwys y canlynol i ddangos yr effaith gadarnhaol:

- **Cymru lewyrchus**: Hybu datblygiad gweithlu medrus mewn lleoliad lleol, creu cyfleoedd yn yr economi, ac ysgogi cynaliadwyedd. Cynorthwyo'r myfyriwr i gyflawni deilliant cadarnhaol ar ôl graddio ac annog cyflogwyr i fod yn fwy cynhwysol. Lle mae lleoliadau am dâl yn hyfyw, bydd hyn yn rhoi cymorth ariannol ar unwaith i'r myfyriwr/graddedig a'r cyflogwr, gan gynyddu'r siawns o hyfywedd ariannol tymor hwy. Nododd un ymatebydd y bydd darparu cyfleoedd ar gyfer y myfyrwyr sydd fwyaf mewn angen yn cynyddu llewyrch ac yn symud myfyrwyr yn nes at y farchnad waith, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd. Nodwyd hefyd fod y cynnig hwn yn darparu cyllid wedi'i dargedu ar gyfer addysg a datblygu cyfleoedd a sgiliau cyflogaeth.
- **Cymru gydnerth**: Yn ôl un ymatebydd, mae'r cynnig hwn yn darparu cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd; addasu i farchnadoedd cyflogaeth newidiol. Dywedodd un ymatebydd eu bod yn amcanu at fod yn garbon niwtral erbyn 2040. Mae'r rhan hon o'u Strategaeth Carbon yn cydnabod bod datgarboneiddio'n ofyniad hanfodol i weithredu a chynnal amgylchedd prifysgol cynaliadwy.
- **Cymru iachach**: Galluogi myfyrwyr a graddedigion â materion iechyd i gael mynediad at brofiad gwaith a chymorth cyflogadwyedd wedi'u teilwra a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol. Nododd un brifysgol fod data o'r Swyddfa Fyfyrwyr (2019) yn dangos bod myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl datganedig yn llai tebygol o sicrhau cyflogaeth â sgiliau uchel.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**: Cefnogi cyfle cyfartal a hybu gwaith teg, sy'n rhedeg drwy egwyddorion y cynnig hwn. Nododd pum ymatebydd fod y cynnig hwn yn cynnwys ffocws ar hybu amrywiaeth yn y gweithle. Ar ben hynny, bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i gael mynediad at gyfle cyfartal i gyfranogi yn eu datblygiad cyflogadwyedd a dod yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau pwysig.
- **Cymru o gymunedau cydlynus**: Hybu amrywiaeth yn y gweithle. Bydd gan fyfyrwyr fwy o ymdeimlad o le a chyswllt â chyflogwyr yn eu cymunedau. Nododd un ymatebydd fod eu Grŵp Prifysgol yn ymrwymedig i ddarparu cymuned ddiogel, groesawus a chynhwysol ar gyfer yr holl gydweithwyr, myfyrwyr, partneriaid ac ymwelwyr. Bydd gan weithgarwch y gallu i gysylltu prifysgolion â chyflogwyr lleol a rhanbarthol.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Mae'r cynnig hwn yn darparu cyfle i fyfyrwyr ymgymryd â lleoliadau a chymorth cyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg, ac mae mwy o debygolrwydd y bydd graddedigion o Gymru'n aros yng Nghymru. Byddai myfyrwyr yn cael eu

hannog i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u cyfleoedd ar gyfer lleoliadau. Nododd un ymatebydd y gellir defnyddio'r cynnig hwn i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**: Cefnogi myfyrwyr lleol a busnesau lleol i gael effaith o ran mwy o gyfleoedd bywyd a chynaliadwyedd economaidd. Mae'r cynnig yn cefnogi cysylltiadau â BBaChau.
- **Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy**: Nododd ymatebwyr sut y mae dull cydweithredol yn gadarnhaol ac yn gyson â'r egwyddor hon; mae hyn wedi gweithio'n dda ar y Rhaglen Cymorth i Raddedigion a rhaglen gyfredol GO Wales a gyllidwyd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Wrth i dimau ddod ynghyd, byddai hynny'n galluogi'r darparwr i fod wedi'i alinio'n fwy â chymorth a darpariaeth iechyd meddwl sydd ar gael i'w fyfyrwyr a gallai helpu i gynyddu prosiectau cydweithredol. Gallai prosiectau cydweithredol gynorthwyo myfyrwyr i ddysgu sgiliau newydd a datblygu hyder, a all fod yn hanfodol i helpu'r rhai sy'n dechrau ar eu taith cyflogadwyedd neu'n ailgydio ynddi.

## 10. Rhestr o'r Ymatebwyr

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Colegau NPTC
- Grŵp Llandrillo Menai
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam